Adran Gwaith a Phensiynau

# Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Waith a Phensiynau ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Asesiad Gallu i Weithio, Adroddiad Cyntaf Sesiwn 2014-15

Cyflwynwyd gerbron y Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Tachwedd 2014

Cm 8967

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2014**

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon ewch i **www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/** neu e-bostiwch **PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk**. Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/government/publications/employment-and-support-allowance-and-work-capability-assessments-response-to-the-work-and-pensions-committee**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

**ESA Directorate Communications Team**
**Rockingham House**
**West Street**
**Sheffield**
**S1 4ER**

**E-bost: WPSCresponse@dwp.gsi.gov.uk**

Argraffedig ISBN 9781474112314
Gwe ISBN 9781474112321

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Rhif Adnabod 18111411 11/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 4 |
| **Pennod 1** | **Cyflwyniad** | 5 |

## Rhagair

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Dethol ar Waith a Phensiynau am ei adroddiad ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Asesiad Gallu i Weithio.

Ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi rydym eisoes wedi gwneud newidiadau, gan benodi darparwr contract newydd, Maximus, ar gyfer asesiadau cysylltiedig ag iechyd a heddiw, bydd Dr Litchfield yn cyhoeddi pumed adolygiad annibynnol yr Asesiad Gallu i Weithio.

Er ei bod yn bwysig gwella'r Asesiad Gallu i Weithio, mae angen i ni wneud mwy i helpu'r sawl ag anableddau a chyflyrau iechyd i aros mewn gwaith neu i ddychwelyd i'r gwaith. Mae gwaith bron bob amser yn dda ar gyfer iechyd, ac mae'r rhan fwyaf o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn gallu gweithio ac am weithio, ar yr amod eu bod yn cael y cymorth cywir.

Yn ogystal â bod yn dda i unigolion; mae gwaith hefyd yn dda i'n heconomi a'n cymdeithas. Mae cynllun economaidd hirdymor y Llywodraeth ar y trywydd cywir - gyda chyflogaeth yn codi bron i 1.75 miliwn dros y pedair blynedd diwethaf, y nifer sy'n cael y prif fudd-daliadau allan o waith yn lleihau dros 850,000 a nifer y cartrefi di-waith yn lleihau dros 600,000.

Fodd bynnag, nid yw'n addas i nifer fawr o bobl barhau i gael budd-daliadau analluogrwydd pan allai cymorth gwell eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Wrth i'r economi barhau i wella mae'n rhaid i ni helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd sydd allan o waith ar hyn o bryd i ddod o hyd i waith lle bynnag y bo'n bosibl. Mae yr un mor bwysig ein bod yn atal pobl rhag rhoi'r gorau i weithio.

Mae'r Llywodraeth hon eisoes wedi gosod y sylfeini ar gyfer hyn. Rydym yn newid agweddau cyflogwyr drwy ein hymgyrch Hyderus o Ran Anabledd flaenllaw, cyflwyno'r Ddeddf Gofal, gwella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl a chyflwyno'r gwasanaeth Ffit i Weithio.

Ond gallwn wneud mwy. Rwy'n awyddus i weld y DU yn arwain y ffordd o ran helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni gael dull mwy cydgysylltiedig ar draws y Llywodraeth fel bod unigolion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt.

Mae'r ymateb hwn yn nodi cynlluniau'r Llywodraeth i ddysgu mwy am anghenion cymorth hawlwyr drwy gyfres o gynlluniau peilot ac ymateb i argymhellion y Pwyllgor Dethol ar Waith a Phensiynau. Edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio i helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i barhau i weithio neu i ddychwelyd i'r gwaith.



**Mark Harper AS**
Y Gweinidog dros Bobl Anabl

# Cyflwyniad 1

## Beth mae'r Llywodraeth hon wedi'i gyflawni hyd yma

Yn 2010 gwnaethom etifeddu sefyllfa lle'r oedd y mwyafrif o bobl oedd yn hawlio budd-daliadau o ganlyniad i'w cyflwr iechyd yn cael yr hen fath o fudd-daliadau analluogrwydd a bod hawlwyr mwy diweddar yn mynd drwy'r Asesiad Gallu i Weithio ac yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Ers hynny, rydym wedi cymryd nifer o gamau i wella'r ffordd y caiff y system ei gweithredu. Un ffocws arbennig fu'r gwaith o ehangu cymorth cyflogaeth gan ein bod yn gwybod bod gwaith yn effeithio'n llesol ar y rhan fwyaf o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Yn 2010 roedd cymorth cyfyngedig ar gael i hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Gwnaeth y Rhaglen Waith, a gyflwynwyd gennym yn 2011, newid hynny drwy gyflwyno cynnig cyflogaeth cenedlaethol. Caiff hawlwyr a roddir yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith - y sawl sydd wedi cael dyddiadau adolygiad bob tri neu chwe mis i ddechrau ac yn fwy diweddar hefyd y sawl sydd wedi cael dyddiadau adolygiad bob 12 mis - eu cyfeirio at y Rhaglen Waith. Gall hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu fudd-dal analluogrwydd wirfoddoli i ymuno. Fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae perfformiad y Rhaglen Waith mewn perthynas â hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth wedi bod yn gwella.

Ynghyd â'r gwelliant hwn mewn cymorth cyflogaeth yn 2011 gwnaethom ddechrau'r broses o ailasesu tua 1.5 miliwn o hawlwyr oedd yn cael yr hen fath o fudd-daliadau analluogrwydd. Fel rhan o'r broses hon, mae 728,000 o bobl bellach yn chwilio am waith neu'n paratoi i wneud hynny. Mae hwn yn ganlyniad ardderchog ond mae angen gwneud mwy oherwydd er y croesewir y gostyngiad o 100,000 yn y llwyth achosion budd-daliadau analluogrwydd cyffredinol ers 2010, rydym o'r farn bod cyfle i helpu mwy o bobl oddi ar fudd-daliadau ac i mewn i waith.

Mae tua 43 y cant o hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ifanc yn y Grŵp Cymorth ar hyn o bryd. Er bod y Grŵp Cymorth yn cynnig rhwyd diogelwch pwysig, rydym am sicrhau y gallwn helpu'r mwyafrif helaeth o bobl ifanc sy'n awyddus i weithio i gyflawni eu nodau.

Drwy broses ailasesu Budd-dal Analluogrwydd a chyflwyno'r Rhaglen Waith rydym wedi gwella'n sylweddol faint o gymorth cyflogaeth sydd ar gael a nifer y bobl a all fanteisio ar y cymorth hwnnw.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar wella profiad hawlwyr, drwy weithredu dros 60 o'r 83 o argymhellion a wnaed o'r pedwar adolygiad annibynnol blynyddol cyntaf o'r Asesiad Gallu i Weithio, gyda'r gweddill yn mynd rhagddynt.

Pan gyflwynwyd yr Asesiad Gallu i Weithio, yn 2008, roedd yn canolbwyntio mwy ar iechyd meddwl o gymharu â'r asesiad yr oedd wedi'i ddisodli, sef yr Asesiad Gallu Personol, a hynny'n fwriadol, ond roedd mwy o waith i'w wneud o hyd. Gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig ag asesu hawlwyr sydd â chyflyrau iechyd meddwl yn gywir, mae'r Llywodraeth hon wedi cymryd camau pendant i sicrhau bod yr asesiad yn fwy sensitif ac yn gallu nodi effaith swyddogaethol y cyflyrau hyn yn well. Mae hyn wedi cynnwys gweithredu argymhellion adolygiad dan arweiniad Adrannau, a symleiddiodd iaith y disgrifyddion ac a ehangodd y Grŵp Cymorth i gynnwys cyflyrau iechyd meddwl, a gweithredu argymhellion o adolygiadau annibynnol yr Asesiad Gallu i Weithio, fel gwella'r ESA50W (yr holiadur am eu cyflwr iechyd a roddwyd i hawlwyr cyn iddynt gael yr Asesiad Gallu i Weithio) er mwyn gallu nodi effaith iechyd meddwl yn well.

Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at y darparwr newydd, Maximus, a fydd yn cynnal asesiadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o fis Mawrth 2015. Bydd telerau ariannol a masnachol y contract a'r rheolaethau cadarn a geir ynddo yn sicrhau eu bod yn recriwtio digon o aseswyr i gynnal y nifer o asesiadau sy'n ofynnol.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein cynnig cymorth cyflogaeth. Er enghraifft, ers ehangu Mynediad at Waith mae miloedd yn fwy o bobl anabl yn cael cymorth, ac mae ein hymgyrch cyflogaeth flaenllaw i bobl anabl, Hyderus o Ran Anabledd, bellach yn gweithio gyda 1,100 o gyflogwyr. Hefyd, gwnaethom gyhoeddi'r "Strategaeth Cyflogaeth Anabledd ac Iechyd: y Drafodaeth Hyd Yma"[1] ym mis Rhagfyr y llynedd, gan nodi ein cynlluniau ar gyfer cynllun braenaru personoli i brofi dull mwy personol a hyblyg o roi cyngor, a datblygu prototeip ar gyfer cyfleuster Porth Cyflogaeth a fydd yn asesu unigolion er mwyn nodi'r cymorth mwyaf effeithiol ar eu cyfer. Hefyd, rydym wedi ehangu a diweddaru'r Porth Cyflogwyr gyda gwybodaeth ac arweiniad ar gyflogi pobl anabl; lansio porth i bobl ifanc sy'n cynnwys gwybodaeth am yr help a'r gefnogaeth sydd ar gael; a chreu pecyn cymorth ar gyfer ASau i'w helpu i gynnal digwyddiadau lleol er mwyn dwyn cyflogwyr a cheiswyr gwaith anabl ynghyd.

Yn ogystal â gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl pan fyddant yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, rydym wedi ystyried ffyrdd o ddarparu ymyriadau'n gynharach gan ein bod yn gwybod bod salwch yn cychwyn ymhell cyn yr adeg y gwneir cais yn y rhan fwyaf o achosion. Felly, rydym yn cyflwyno Ffit i Weithio er mwyn rhoi cymorth personol i gyflogeion ar gamau cynnar absenoldeb salwch neu gyfnod o salwch. Dylai hyn olygu bod pobl yn dychwelyd i'r gwaith yn gynt ac yn cael cymorth i barhau i weithio. Bydd Ffit i Weithio hefyd yn cynnig cyngor cyffredinol ar iechyd a gwaith i gyflogwyr a meddygon teulu er mwyn helpu unigolion i barhau i weithio neu i ddychwelyd i'r gwaith.

Rhoddir mwy o flaenoriaeth i hawlwyr â chyflwr iechyd meddwl yn ddiweddar. Ers cyflwyno Lwfans Cyflogaeth a Chymorth mae cyfran y bobl sy'n hawlio, y nodwyd mai iechyd meddwl yw eu prif gyflwr wedi bod yn codi'n raddol. Mae gan gyfran helaeth o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith gyflwr iechyd meddwl hefyd.

[1] https://www.gov.uk/government/publications/the-disability-and-health-employment-strategy-the-discussion-so-far

Er mwyn helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r dulliau gorau o helpu pobl â chyflyrau iechyd meddwl, rydym wedi lansio cynlluniau peilot Lles a Gwaith Seicolegol a fydd yn archwilio sut y gallwn wella canlyniadau cyflogaeth ac iechyd ar gyfer y grŵp hwn. Rydym hefyd wedi bod yn cefnogi ein staff i helpu pobl â chyflyrau iechyd meddwl. Ym mis Ionawr, er enghraifft, gwnaethom lansio'r pecyn offer Cyflogaeth a Lles, sy'n cynnig cymorth ymarferol i Anogwyr Gwaith y Ganolfan Gwaith er mwyn eu helpu i weithio gyda hawlwyr â chyflyrau iechyd meddwl.

Ym mis Hydref eleni, lansiodd yr Adran Iechyd y cynllun pum mlynedd newydd ar gyfer iechyd meddwl, "Mental Health Services; achieving better access by 2020",[2] gan nodi uchelgais y Llywodraeth i sicrhau mynediad gwell i wasanaethau iechyd meddwl ac amseroedd aros byrrach, a'r camau gweithredu uniongyrchol y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i gyflawni hyn. Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi £40m ychwanegol eleni er mwyn helpu rhai o'r bobl mwyaf agored i niwed i gynnal a gwella eu cyflwr iechyd.

Mae camau gweithredu eraill a gymerir gan y Llywodraeth hefyd yn creu amgylchedd a fydd yn helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i ddod o hyd i waith. Ym mis Mai eleni, cafodd y Ddeddf Gofal Gydsyniad Brenhinol a bydd hyn yn helpu i wella annibyniaeth a lles pobl drwy sicrhau eu bod yn ymwybodol o wasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau lleol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo lles unigolion, a sefydlu'r canlyniadau y maent am eu cyflawni o ddydd i ddydd, yn cynnwys y gallu i ymgymryd â gwaith, addysg neu hyfforddiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn ehangu cyllidebau personol a thaliadau uniongyrchol, gan roi'r hyblygrwydd i bobl gynllunio eu gofal a'u cymorth eu hunain ac i arfer rheolaeth dros y modd y'i darperir.

## Gwella cymorth i'r rhai sy'n gallu gweithio

Heddiw, rydym yn cyhoeddi pecyn o fesurau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i wella'r cymorth rydym yn ei gynnig i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd.

Ar ddechrau 2015 byddwn yn cyflwyno nifer o gynlluniau peilot i'n helpu i ddeall yn well pa gymorth sydd ei angen ar hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i'w helpu i symud yn ôl i mewn i waith.

Bydd y cynllun peilot sy'n cynnig cymorth mwy dwys yn cynyddu amlder a dwyster y cymorth a roddir gan Anogwr Gwaith ar gyfer y chwe mis cyntaf ar ôl i hawlwyr gwblhau'r Rhaglen Waith.

Mewn ardaloedd penodol lle mae'r angen mwyaf am help mewn perthynas â Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, byddwn yn treialu system fwy rhagweithiol ar gyfer hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Bydd y sawl sy'n aros am Asesiad Gallu i Weithio yn cael cynnig ymyriadau gwirfoddol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth gan Anogwyr Gwaith a byddwn hefyd yn profi cyngor iechyd galwedigaethol ar gyfer Anogwyr Gwaith a chymorth i reoli poen cefn i hawlwyr â'r cyflwr cyhyrysgerbydol cyffredin hwn.

O ddechrau 2015, byddwn yn treialu'r Ymrwymiad Hawlydd ar gyfer hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar gamau amrywiol o daith yr hawlydd. Mae'n ofynnol i hawlwyr Credyd Cynhwysol dderbyn Ymrwymiad Hawlydd fel amod hawlio, felly bydd y treial yn llywio ein gwaith o baratoi ar gyfer y trawsnewidiad diwylliannol sy'n ofynnol i hawlwyr a staff yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Cynhelir y treial mewn un Dosbarth Canolfan Byd Gwaith, a bydd y grwpiau yn rhai sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac:

- sy'n aros am Asesiad Gallu i Weithio (bydd cyfranogiad ar gyfer y grŵp hwn ar sail wirfoddol);
- sydd wedi cael Asesiad Gallu i Weithio (pan gânt eu rhoi yn y Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith); neu
- sydd wedi cwblhau eu cyfranogiad ar y Rhaglen Waith.

[2] https://www.gov.uk/government/publications/mental-health-services-achieving-better-access-by-2020

Mae'r Ymrwymiad Hawlydd yn helpu i sicrhau bod hawlwyr yn canolbwyntio ar eu gofynion cysylltiedig â gwaith yn cynnwys, lle y bo'n briodol, chwilio am waith mewn modd rhagweithiol sy'n golygu bod chwilio am waith yn weithgarwch amser llawn. Am y tro cyntaf, caiff rhwymedigaethau hawlwyr eu cofnodi mewn un lle, gan egluro'r hyn y disgwylir iddynt ei wneud yn gyfnewid am y budd-daliadau a'r cymorth a gânt, a beth yn union fydd yn digwydd os na fyddant yn cydymffurfio.

Rydym yn bwriadu cyflwyno mesur i ganiatáu cyfnod o salwch estynedig newydd ar Lwfans Ceisio Gwaith ym mis Ebrill 2015. Bydd hyn yn golygu y gall hawlwyr sy'n disgwyl bod yn sâl am lai na 13 o wythnosau ddewis parhau i gael Lwfans Ceisio Gwaith yn hytrach na newid i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Bydd hyn yn eu galluogi i barhau i fanteisio ar gefnogaeth y Ganolfan Gwaith i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith - cyn gynted ag y bydd eu cyflwr iechyd wedi gwella.

Rydym yn bwriadu cyflwyno mesur i atal hawlwyr sy'n cael budd-dal ar gyfradd asesu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth lle y nodwyd bod hawlydd yn ffit i weithio, ond sy'n gwneud cais arall am fudd-dal pan na fydd wedi datblygu cyflwr newydd neu pan na fydd ei gyflwr wedi gwaethygu'n sylweddol. Byddai angen i ni ystyried y cais newydd o hyd ond tra byddwn yn ei ystyried, a thra bod unrhyw apêl yn erbyn y ffaith ein bod wedi gwrthod y cais hwnnw yn yr arfaeth, ni thelid unrhyw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth er y gellid hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Caiff hyn ei gyflwyno y gwanwyn nesaf a dylai helpu i sicrhau bod hawlwyr y nodir eu bod yn ffit i weithio yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a'u bod yn parhau i fod yn agosach at y farchnad lafur, yn hytrach na chylchdroi o amgylch y system Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Byddwn yn gwerthuso canlyniadau'r cynlluniau peilot hyn ac yn ystyried unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol fel rhan o'r adolygiad nesaf o wariant.

## Yr heriau yn y dyfodol

Mae angen i ni sicrhau bod y system gymorth yn ddigon cyson fel bod y sawl sydd am weithio yn cael y cyfleoedd cywir i gyflawni eu potensial, tra'n parhau i ddarparu cymorth priodol i'r sawl na all weithio.

Gwyddom fod gwaith bron bob amser yn dda ar gyfer iechyd, a bod y rhan fwyaf o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd am weithio. Mae pennu gweithgareddau rhagweithiol i chwilio am waith fel amod ar gyfer cael budd-daliadau diweithdra a sicrhau bod ceiswyr gwaith yn mynychu cyfweliadau wyneb yn wyneb rheolaidd wedi bod yn llwyddiannus o ran atal llawer o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith rhag bod yn ddi-waith am gyfnod hir. Fodd bynnag, mae'n briodol sicrhau bod cyfweliadau a chymorth yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion unigolyn mewn perthynas â'i anabledd neu gyflwr iechyd.

Mae Llywodraethau olynol wedi gweld canlyniadau gwaith gwell a all ddeillio o gynyddu gweithgarwch cysylltiedig â gwaith, ynghyd â chymorth priodol. Gallwn hefyd weld manteision teilwra disgwyliadau a chymorth ar sail fwy personol ac rydym yn sicrhau bod hyn yn rhan ganolog o Gredyd Cynhwysol. Er enghraifft, yn y cyfnod cyn yr Asesiad Gallu i Weithio, byddwn yn teilwra ein hymyriadau i amgylchiadau pob hawlydd a byddwn yn parhau i brofi a dysgu dulliau newydd i wella canlyniadau cyflogaeth y grŵp hwn. Yn yr un modd, mae angen i ni ymchwilio ymhellach i weld beth fydd yn gweithio orau i hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. A bydd y gwasanaeth Ffit i Weithio newydd, drwy roi cymorth personol i gyflogeion ar gamau cynnar absenoldeb salwch neu gyfnod o salwch, yn helpu i sicrhau eu bod yn dychwelyd i'r gwaith yn gynt ac yn eu helpu i barhau i weithio.

Yng nghyd-destun yr adferiad economaidd a'r Cap ar Fudd-daliadau, mae angen i ni sicrhau bod arian yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol ar gyfer y grŵp hwn o bobl er mwyn sicrhau bod y sawl sydd â'r angen mwyaf yn cael ei ddiogelu, a'n bod yn helpu'r sawl sydd am weithio i wneud hynny.

Mae hefyd angen i ni sicrhau bod y broses asesu yn nodi anghenion cymorth iechyd a chyflogaeth, heb fod yn rhy feichus nac ymwthiol i'r hawlydd gan sicrhau y telir budd-daliadau i'r sawl sydd eu hangen fwyaf. Ein hamcan yw na ddylai fod angen i hawlwyr gael asesiadau diangen pan geir gwybodaeth yn ein systemau a all gefnogi eu cais. Yn amlwg, mae angen cael cydbwysedd rhwng gwneud y penderfyniad cywir yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth briodol sydd ar gael, a bod yn gymesur wrth gasglu ac ystyried y dystiolaeth honno, er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau heb unrhyw oedi afresymol na chostau gweinyddol diangen.

Mae Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn fudd-daliadau ar wahân, wedi'u cynllunio i fodloni dibenion gwahanol. Mae heriau sylweddol yn gysylltiedig â defnyddio tystiolaeth o asesiadau Taliad Annibyniaeth Personol mewn Asesiadau Gallu i Weithio ac i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, gallwn wneud mwy er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng y ddau asesiad pan fydd yn briodol gwneud hynny. Rydym wedi dechrau profi'r broses o rannu adroddiadau ar Asesiadau Gallu i Weithio gyda darparwyr asesiadau Taliad Annibyniaeth Personol er mwyn llywio eu hasesiadau a'n helpu ni i wneud penderfyniadau'n gynt.

Un arall o'n hamcanion yw sicrhau bod camau gweithredu yn y dyfodol yn ystyried Credyd Cynhwysol yn llawn, gyda'r prif amcan o helpu pobl i mewn i waith. O ran Credyd Cynhwysol, ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd sy'n aros i gael Asesiad Gallu i Weithio, fel y nodwyd, ceir system o gymorth ac ymyriadau wedi'i theilwra. Ar gyfer yr hawlwyr hynny y mae'r Asesiad Gallu i Weithio wedi nodi bod ganddynt allu cyfyngedig i weithio neu allu cyfyngedig i weithio a chyflawni gweithgaredd cysylltiedig â gwaith, mae cynllun presennol y Credyd Cynhwysol yn adlewyrchu cynllun y system budd-daliadau bresennol yn gyffredinol yn yr ystyr ei fod yn cynnwys lefelau gwahanol o gymorth ariannol a disgwyliadau gwaith.

O dan y Credyd Cynhwysol, bydd manteision ariannol gweithio bob amser yn glir ar gyfer pob hawlydd. Mae hyn yn cynnwys pobl a all ond gweithio nifer gyfyngedig o oriau bob wythnos neu sydd â chyflyrau amrywiol sy'n golygu y gallant weithio rhai diwrnodau ond na allant ar ddiwrnodau eraill.

ISBN 978-1-78425-404-9

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Tachwedd 2014

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**